

Ennill Swydd - Profion Seicometrig



Pam bod recriwtwyr yn defnyddio profion seicometrig? Bydd cyflogwyr yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i ddewis y staff iawn ac nid yw profion ond yn un ffordd o brofi galluoedd sy'n berthnasol i swydd benodol. Yn ddelfrydol, dylid eu llunio gyda'r math hwnnw o waith dan sylw. O safbwynt y cyflogwr, mae profion hefyd yn ffordd weddol gost-effeithiol o asesu nifer fawr o ymgeiswyr. Mae hyn, siŵr o fod, yn esbonio pam bod llawer iawn o sefydliadau'n eu defnyddio i ragddethol ymgeiswyr ar gyfer cyfweiliadau sy'n gymharol ddrud.

➔ Beth yw prawf seicometrig?

Ymarferion strwythuredig papur a phensel neu, gan amlaf erbyn hyn, cyfrifiadurol yw profion seicometrig, sydd, fel arfer, yn cael eu cyflwyno ar ffurf cwestiynau amlddewis. Maent wedi'u llunio i asesu'ch gallu i resymu neu sut y byddwch yn ymateb i wahanol sefyllfaoedd

➔ Sut mae profion seicometrig yn cael eu defnyddio?

Rydych yn debyg iawn o ddod ar draws profion seicometrig yng nghyd-destun recriwtio, ond gallant hefyd gael eu defnyddio fel offeryn i'ch helpu i ddeall lle mae'ch cryfderau a pha feysydd gyrfa a allai fod y mwyaf addas ac o'r diddordeb mwyaf i chi.

➔ Pa fathau o brawf sy'n cael eu defnyddio?

Ceir dau fath arferol o brawf seicometrig:

- Profion gallu
- Holiaduron personoliaeth

1) Profion gallu

Mae'r rhain yn profi eich gallu i resymu neu feddwl, nid profion gwybodaeth gyffredinol na deallusrwydd mohonynt. Cânt eu cyflwyno o dan amodau arholiad a'u hamseru'n llym, a gall prawf nodweddiadol roi 30 munud i chi ateb 30 neu ragor o gwestiynau.

Yn aml, fe'u cyflwynir ar ffurf amlddewis, mae gan y cwestiynau atebion cywir neu anghywir pendant ac, wrth i chi fynd trwy'r prawf, bydd y cwestiynau'n aml yn mynd yn fwy anodd. Cofiwch y bydd rhai o'r profion yn cael eu 'marcio yn negyddol' - lle bydd marciau yn cael eu tynnu oddi ar eich cyfanswm am atebion anghywir.

Cyhoeddir nifer fawr o brofion, ond y rhai mwyaf cyffredin a ddefnyddir wrth recriwtio graddedigion yw:

- Rhesymu geiriol (profion rhesymu â gwybodaeth ysgrifenedig)
- Rhesymu rhifiadol (profion rhesymu â rhifau, siartiau a graffiau)
- Rhesymu diagramatig neu ofodol (profion rhesymu â ffigyrau haniaethol)

2) Holiaduron personoliaeth

Mae holiaduron personoliaeth yn edrych ar y ffordd rydych yn tueddu ymateb neu ymdrin â gwahanol sefyllfaoedd ac maent yn holiaduron 'hunan adrodd' - sy'n golygu bod proffil yn cael ei lunio o'ch atebion i nifer o gwestiynau neu osodiadau.

Yn wahanol i brofion gallu, nid oes unrhyw atebion cywir nac *anghywir* ac fel arfer bydd holiaduron yn cael eu cwblhau yn eich amser eich hun. Efallai y byddwch yn derbyn peth adborth ar y proffil a gynhyrchir gan eich atebion, ac weithiau gall ffurfio sail i drafodaeth mewn cyfweiliad olynol. Mae'n annhebygol y bydd y detholwyr yn edrych am broffil personoliaeth 'nodweddiadol' anhyblyg, er y gall rhai agweddau ar bersonoliaeth fod yn fwy neu'n llai addas ar gyfer swyddi neu sefydliadau penodol.

Y ffordd orau i fynd i'r afael â'r holl holiaduron hyn yw eu hateb mor ddi-lol a gonest ag y gellwch. Mae dyfalu'r hyn y mae'r cyflogwr yn chwilio amdano'n anodd ac yn wir gallai fod yn wrthgynhyrchiol - ac efallai na fyddwch yn sylwi ar yr holl gwestiynau gwaelodol.

➔ Sut y galla i baratoi ar gyfer profion gallu?

Er na ellwch brynu papurau prawf cyflawn, mae yna rychwant o adnoddau ymarfer. (Gweler yr adran o dan y pennawd *Adnoddau ymarfer* isod.)

Ceir nifer o bethau y gellwch eu gwneud i baratoi. Gall chwarae gêmâu geiriau, posau mathemategol a diagramatig fod yn gymorth i feithrin rhyw ffordd o feddwl rhesymegol a dadansoddol, a gall y syniadau canlynol fod yn fuddiol wrth ddatblygu galluoedd arbennig:

- **Sgiliau rhesymu rhifiadol** - dylech ymarfer rhifyddig pen sylfaenol gyda chyfrifiannell a hebddi. Adio, tynnu, rhannu, lluosu a chyfrifo canrannau a chymarebau sydd eu hangen fwyaf, ac mae'r gallu i dynnu gwybodaeth o siartiau a graffiau yn gallu bod yr un mor bwysig â'r cyfrifiadau eu hunain yn y profion hyn. Cofiwch, oni bai bod swydd yn gofyn am lefel rhifedd uchel, nid yw profion rhifiadol yn debyg o gael eu gosod ar lefel sy'n uwch na

mathemateg TGAU.

- **Sgiliau rhesymu geiriol** - mae'r rhain yn anoddach i'w gloywi'n gyflym. Gall darllen llawlyfrau, adroddiadau technegol neu gylchgronau academaidd a busnes fod o help. Dylech ymarfer tynnu a chrynhoi'r prif bwytiau o ddarnau gwybodaeth.

➤ Gair i gall ...

Gall ymarfer eich helpu i deimlo'n fwy hyderus am sefyll y profion hyn, ond mae'n annhebyg y byddwch yn gwella'ch sgoriau y tu hwnt i lefel gymharol fechan oherwydd eu bod yn mesur eich gallu cynhenid, (eich potensial) yn hytrach na'r hyn rydych wedi'i ddysgu.

➤ Sut fedrwch chi wneud yn dda ar y diwrnod?

- Trwy gael noson dda o gwsg y noson cyn y prawf.
- Os byddwch fel arfer yn gwisgo sbectol a/neu declyn clywed, ewch â nhw gyda chi.
- Cyrhaeddwch y ganolfan brawf mewn da bryd a diffoddwch eich ffôn symudol.
- Dylech osgoi alcohol a rhowch wybod i weinyddwr y prawf os ydych ar feddyginiaeth sy'n peri i chi deimlo'n gysglyd.
- Os oes gennych anabledd a bod arnoch angen darpariaeth arbennig, trafodwch hyn â'r cyflogwr ymlaen llaw cyn y prawf. (Gweler yr adran o dan y pennawd *Beth os oes gen i anghenion arbennig?*)
- Sicrhewch eich bod yn gwybod yn union beth sydd angen i chi ei wneud - peidiwch â bod ofn gofyn cwestiynau.
- Dilynwch y cyfarwyddiadau a roddir i chi'n union.
- Darllenwch drwy'r cwestiynau ac atebwch y dewisiadau'n ofalus iawn.
- Dilëwch gymaint o atebion anghywir ag y bo modd. Er enghraifft, gyda phrofion rhifiadol, gall amcangyfrif sydyn eich helpu i daflu allan sawl un o'r dewisiadau heb orfod cyfrifo pob dewis unigol.
- Gweithiwch mor gyflym a chywir ag y gellwch. Mae cyflymdra a chywirdeb yr un mor bwysig â'i gilydd - peidiwch â threulio gormod o amser ar unrhyw gwestiwn unigol, a chadwch eich llygad ar y cloc.
- Peidiwch â gwastraffu amser ar gwestiynau anodd - dylech eu gadael gan symud ymlaen. Y dull gorau, siŵr o fod, yw mynd am eich dewis gorau, ond osgoi dyfalu'n wyllt.
- Peidiwch â phoeni os na fyddwch yn gorffen yr holl gwestiynau yn yr amser, ond os byddwch, dewch yn ôl dros eich atebion unwaith eto i'w gwirio.

➤ Beth os oes gen i anghenion arbennig?

Nid yw profion seicometrig mor agored i'r rhagfarnau a all ddeillio o offer recriwtio eraill megis cyfweliadau. Bydd pawb sy'n sefyll prawf seicometrig yn cael yr un cwestiynau gan eu cymryd o dan yr un amodau sylfaenol. Trwy drafod ymlaen llaw pa

anghenion a all fod gennych, fodd bynnag, byddwch yn sicrhau y gall addasiadau rhesymol gael eu gwneud i sicrhau maes chwarae gwastad. Gall y rhain gynnwys darparu darlennydd/ysgrifennwr neu arwyddwr personol, caniatáu amser ychwanegol i wneud y prawf neu ddarparu offer arbenigol (e.e. system ddolen/bysellfwrdd Braille).

➤ A alla i 'fethu' profion seicometrig?

1) Profion gallu

Profion 'normadol' yw'r rhain: bernir eich perfformiad yn erbyn perfformiad grŵp cymharol (neu 'norm') ac nid yw'ch sgôr ond yn adlewyrchu pa mor dda rydych wedi'i wneud o'i gymharu â'r bobl hynny. Er bod atebion cywir ac anghywir, ni fedrwch, yn ddamcaniaethol, basio na methu prawf gallu.

Mewn gwirionedd, bydd cyflogwyr yn defnyddio'r profion hyn i ddethol y bobl fwyaf addas i swyddi arbennig ac yn y pen draw, byddwch yn 'pasio' prawf os bydd eich sgôr uwchlaw rhyw bwynt penodol. Amrywia'r pwynt lle y byddwch yn pasio o gwmni i gwmni, ac o swydd i swydd, nid oes y fath beth â 'marc pasio' penodedig ar gyfer prawf arbennig.

Dylech gofio hefyd y bydd arwyddocâd y pwynt pasio'n amrywio gan ddbynnu ar ble mae'r profion yn cael eu defnyddio yn y broses ddethol. Mae sefydliadau sy'n defnyddio'r profion hyn i ddethol ymgeiswyr ar gyfer cyfweliadau cyntaf yn debygol o benderfynu ar sail sgôr eich prawf yn unig (h.y. fel trothwy pasio/methu). Mae cyrff sy'n defnyddio'r profion ychydig yn nes ymlaen yn y broses yn fwy tebygol o ddefnyddio'ch canlyniadau fel un yn unig o'u meini prawf ar gyfer y dethol cyffredinol. Gall perfformiad sydd heb fod mor ddelfrydol yn un o'r profion, er enghraifft, gael ei ddigolledu gan berfformiad da mewn ymarferion dethol eraill - yn enwedig y rheini sy'n mesur galluoedd tebyg,

Awgryma canllawiau'r Gymdeithas Seicometrig Brydeinig (BPS) y dylai pawb sy'n sefyll profion dderbyn adborth ar eu perfformiad yn y profion, felly, dylech ofyn am adborth os nad yw'n cael ei gynnig. Gall fod nifer o resymau am berfformiad gwael. Gallai'r rhain gynnwys teimlo'n flinedig neu'n sâl, methu â chanolbwytio oherwydd problemau personol, camddeall beth oedd yn rhaid i chi ei wneud, ateb cwestiynau'n rhy araf neu golli'ch pen. Nid yw canlyniadau gwael yn y profion ar y diwrnod o anghenraid yn golygu bod eich gallu'n ddiffygiol, a hwyrach yr hoffech drafod eich technegau yn y profion ag ymgynghorydd gyrfaoedd neu sefyll prawf ymarfer i gael adborth ar beth allai fod wedi mynd o'i le.

2) Profion personoliaeth

Nid yw'n bosibl 'methu' prawf personoliaeth! Gall eich atebion ddatgelu priodweddau nad oedd neb yn chwilio amdanynt mewn sefydliad arbennig, ond ni fedrwch *fethu*'r prawf. Ychydig iawn o gyrff fydd yn penderfynu dethol ar sail prawf personoliaeth yn unig, fodd bynnag, ac mae'r canlyniad yn fwy tebygol o fod yn destun trafodaeth â chi. Cofiwch, fodd

bynag, fod rhai sefydliadau'n cynnwys prawf personoliaeth yn rhan o'u proses ymgeisio a gall atebion sy'n dangos diffyg cyfatebiaeth rhyngoch chi â'r diwylliant sydd ohoni olygu na fydd eich cais yn mynd yn ei flaen. Y naill ffordd neu'r llall, nid yw'n golygu eich bod wedi *methu*'r prawf ei hun.

➤ Adnoddau ymarfer

Y ffordd orau i wybod beth yn union yw profion seicometrig yw i ymarfer cymaint o amrywiadau ohonynt ag sy'n bosibl ac i drafod eich datblygiad gydag un o'n ymgynghorwyr gyrfaeodd. Efallai y byddwch hefyd am fenthyg llyfrau perthnasol o'n swyddfa yn Undeb y Myfyrwyr ac ymarfer y cwestiynau sampl sydd ar nifer o wefannau.

Llyfrau ar brofion gallu

- How to Pass Advanced Aptitude Tests (J. Barrett, Kogan Page)
- How to Pass Graduate Psychometric Tests (M. Bryon, Kogan Page)
- How to Pass Verbal Reasoning Tests (H. Tolley a K. Thomas, Kogan Page)
- How to Pass Advanced Numeracy Tests (M. Bryon, Kogan Page)
- How to Pass Numeracy Tests (H. Tolley a K. Thomas, Kogan Page)
- How to Pass Numerical Reasoning Tests (H. Smith, Kogan Page)
- Practice Psychometric Tests (A. Shavick, How To Books)
- The Ultimate Psychometric Test Book (M. Bryson, Kogan Page)
- Succeed at Psychometric Testing: Practice Tests for Critical Verbal Reasoning (P.S. Rhodes, Hodder Arnold)

Taflen ar fathemateg

- Improve Your Numeracy (Prifysgol Bryste a Phrifysgol Birmingham)

Gwefannau defnyddiol

- www.shldirect.com (SHL)

Enghreifftiau o gwestiynau rhesymu geiriol, rhifiadol, anwythol a mecanyddol, barn sefyllfaol, rhesymu gofodol a phrofion cywirdeb, ynghyd â holiaduron personoliaeth a chymhelliaeth - a rhai profion hefyd yn cynnig adborth.

- www.morrisby.com (Morrisby)

Yn cynnwys nifer o gwestiynau prawf sampl yn yr adran 'Morrisby Profile'.

- www.cimt.plymouth.ac.uk/interactive/ (Centre for Innovation in Mathematics Teaching, Prifysgol Plymouth)

Profion di-rif ar gyfer ymarfer pob lefel o sgiliau mathemategol - ceir atebion ac adborth.

- www.mensa.org.uk (Mensa)

Nid profion gallu fel y cyfryw ond efallai y bydd y tudalennau posau eich helpu i ymgyswrtio â meddwl yn gyflym mewn sefyllfaoedd prawf.

- <http://practicetests.cubiks.com> (Cubiks)

Yn cynnwys 8 cwestiwn prawf rhesymu rhifiadol ac 8 geiriol ar gyfer ymarfer gydag atebion. Mae rhai diagramatig wrthi'n cael eu datblygu.

- www.markparkinson.co.uk/psychometric_links.htm

Tudalen sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd gyda dolennau i brofion di-dâl.

- www.psychometricinstitute.co.uk (Institute of Psychometric Coaching)

Yn cynnwys profion ymarfer rhifiadol, geiriol ac haniaethol am ddim ynghyd â holiadur personoliaeth cyflwyniadol syml.

- www.assessmentday.co.uk (Assessment Day)

Profion ymarfer rhesymu rhifiadol, geiriol ac anwythol am ddim, ac hefyd cyngor ar ganolfannau asesu ac ymarfer mewnlwch i'w lawrlwytho.

- www.theonlinecentre.com (The Online Centre)

Profion llafar, rhifiadol, diagramatig a rhesymegol am ddim.

- www.graduatewings.co.uk (GraduateWings)

Yn cynnwys profion ymarfer am ddim, yn ogystal â phrofion ar werth.

- www.practiceaptitudetests.com (Practice Aptitude Tests)

Profion ymarfer am ddim (llafar, rhifiadol a diagramatig), yn ogystal â phrofion ar werth.

- www.aptitudeexercises.co.uk (AptitudeExercises)

Yn cynnwys profion ymarfer am ddim, yn ogystal â phrofion ar werth.

- www.practiceshltests.com (Practice SHL Tests)

Gwybodaeth am brofion SHL, yn cynnwys cwmnïoedd sy'n eu defnyddio ac awgrymiadau defnyddiol.